# Taith i Batagonia




Y Côr yn Esquel



Llinos yn arwain



Lago Menéndez

Er bod aelodau Côr Merched y Garth wedi cael teithlen fanwl yn disgrifio pob diwrnod o'r daith i'r Wladfa dros y Pasg doedd neb wedi disgwyl gymaint o groeso a mwynhad a thywydd braf wrth fynd ar daith mor bell.

O fewn oriau i'r côr gyrraedd Buenos Aires, prifddinas yr Ariannin, roedd rhai o siaradwyr Cymraeg y ddinas wedi dod draw i'n gwesty i'n croesawu ac am sicrhau ein bod yn gweld y ddinas ar ei gorau. Ac fe gafwyd tri diwrnod arbennig yn crwydro'r ddinas a deall ei hanes - Eva Peron, Clwb pêl-droed y Boca, y Tŷ Opera, Tango a stêcs.

Hedfan ymlaen am ddwy awr i Esquel yn yr Andes. Roedd yr awyren wedi glanio fel sach o datws ar y maes awyr gwyntog ond roedd croeso arbennig yn ein disgwyl yng Nghanolfan Gymraeg Esquel. Cafwyd noson hwyliog o ganu yng nghwmni Côr Cymraeg Esquel a nifer o ddysgwyr Cymraeg ac yna swper ardderchog.

Roedd Cwm Hyfryd ar ei orau wrth i ni deithio i weld y rhaeadrau yn Nant y Fall a chlywed am draddodiad tyfu gwenith yn y Felin Fach. Ac roedd y te Cymreig yn Casa de Te Nain Maggie wedi plesio pawb yn arbennig y rhai oedd yn hoffi'r dewis enfawr o gacennau.

Roedd rhaid paratoi ar gyfer taith gerdded hir y diwrnod canlynol ac fe'n cludwyd ar y bws ar hyd lonydd caregog i rai o olygfeydd gogoneddus yr Andes. Roedd y tywydd yn berffaith a'r eira ar y mynyddoedd yn adlewyrchu yn y llynnoedd glas. Cerdded am filltir i'r cwch ym Mharc Cenedlaethol Los Alerces ac yna hwylio ar draws Llyn Menéndez i droed y rhewlif ac i lanfa'r parc natur. Cerdded am ddwy filltir arall i weld y condor yn hedfan yn fygythiol, rhagor o fynyddoedd a chyrraedd coed llarwydden uchel enfawr - y mwyaf ohonynt dros ddwy fil o flynyddoedd oed.

Roedd y daith nesaf yn fwy hamddenol - ar drên stem La Trochita i Nahuel-Pan. Cael cyfle i weld rhagor o ran uchaf Cwm Hyfryd a'r mynyddoedd o'i hamgylch a chlywed caneuon gan frodorion Indiaid cyn cyrraedd pentref Nahuel Pan, pentref Indiaid anghysbell ar wastatir diffaith gwyntog a chael cyfle i brynu eu nwyddau pert traddodiadol.

Roedd cyngerdd arbennig ar noson olaf ein hymweliad â'r Andes yn Nhrevelin. Yno y gwelwyd ysgol fach gyda 70 o ddisgyblion yn dysgu siarad Cymraeg ger hen gapel Bethel. Gwelwyd hen dy Taid, John Daniel Evans, a chlywed hanes y ceffyl Malacara ac ymweld ag Amgueddfa Trevelin yn yr hen felin. Roedd y neuadd yn llawn ar gyfer y cyngerdd ac yn ogystal â chlywed Côr Merched y Garth ar ei gorau cafwyd eitemau gan Meinir Heulyn ar y delyn a gan gôr cymysg a ffurfiwyd gyda'r gwŷr oedd wedi ymuno ar y daith. Ac i ddilyn, pryd bwyd ardderchog arall a chanu i sain yr accordion.

Er mai ddim ond hanner y daith oedd wedi ei gwblhau yn Nhrevelin roedd rhaid cyflwyno anrhegion arbennig i Eleri a Rae am eu gwaith yn trefnu'r daith. Roedd llyfr Rocky Trip newydd ei gyhoeddi - mae'n llawn lluniau a hanes y mewnfudo i'r Wladfa. Roedd yn gyfle hefyd i ddiolch i Catrin Morris am ei gwaith yn sicrhau fod y côr yn cael gofal arbennig ar hyd y daith

Ar draws y paith i'r Camwy y mis nesaf.



Capel Bethel, Trevelin



Teledu Esquel yn dilyn hynt y côr



Mwynhau yn Nhrevelin

# Taith y Paith

Roedd criw Côr Merched y Garth wedi cael croeso ardderchog yn Esquel a Threvelin a doedd neb yn edrych ymlaen at adael yr Andes a mynd ar daith 400 milltir am 10 awr mewn bws. Roedd rhan gyntaf y daith dros fynyddoedd tebyg i Fannau Brycheiniog ond llawer mwy llwm a sych. Roeddem wedi clywed llawer am y Gauchos gan Andres, ein tywysydd, ar y daith. Ac yn sydyn gwelwyd gaucho ar ei geffyl ar ben y bryn. Stopiodd y bws a charlamodd y gaucho a'i gi i lawr tuag atom i gael sgwrs. Roedd yn gyfle arbennig i weld gaucho go iawn a deall ei fod yn edrych ar ôl y defaid i deulu'r Hughes.

Erbyn hyn roedd ein bardd preswyl wedi gosod tasg i'r bws ffurfio limrig "Ynghanol y paith maith yn rhywle …" . Ac er bod y daith yn hir roedd y golygfeydd yn newid wrth i'r bryniau droi yn greigiau a chlogwyni serth coch yn sefyll allan o'r gwastadtir. Bu raid i'r bws stopio ambell waith er mwyn i ni gael gweld yr anifeiliaid brodorol - y guanaco a'r ria.



Roedd y ffordd yn syth am filltiroedd nes i'r afon Camwy ddod i'r golwg. Yna cawsom gyfle i gael brêc yng ngorsaf betrol anghysbell Los Altares. A thrwy gyd-ddigwyddiad llwyr roedd criw o Gymry o ardal y Bala yn teithio i'r cyfeiriad arall a chyrraedd yr un man ar yr union r'un pryd. Cyfle i gael sgwrs unwaith eto.

Yng nghanol y paith maith yn rhywle,
Pan fydd angen mawr iawn am doilede,
Ewch i chwilio am gysgod,
Rhowch eich pen yn y tywod,
Waeth does neb yn adnabod penole.

Harpic



Trefnwyd picnic amser cinio ac arhosodd y bws ar lan yr afon Camwy mewn llecyn y mae'n sicr y byddai'r teithwyr cyntaf wedi pasio ar eu taith i Gwm Hyfryd. Ar ôl cinio roedd rhaid canu ar lan yr afon gyda'r atsain o'r clogwyni yn creu awyrgylch arbennig a atgoffodd Andres o'r arloeswyr cynnar o Gymru a deithiodd ar draws y paith i chwilio am fywyd gwell.



Er bod y cwm yn weddol lydan roedd y clogwyni a'r cerrig enfawr yn drawiadol ac yn rhwystr enfawr i'r teithwyr cyntaf wrth groesi'r paith yn eu wagenni, taith a fyddai'n cymryd chwe wythnos. Ar ôl croesi'r afon Camwy cyrhaeddwyd pentref Indiaid gyda siop fach yn gwerthu nwyddau brodorol. Roedd y Cymry cynnar wedi llwyddo ar y cyfan i gydweithio gyda'r Indiaid ac wedi dysgu llawer ganddynt am lwybrau a dirgelion y paith.

Croesi rhes arall o fryniau a disgyn i gwm afon Camwy a gweld am y tro cyntaf y ffosydd yn cario'r dŵr o'r afon i ddyfrhau'r caeau. A synnu hefyd ar y ffin rhwng y tir



**Daeth teulu Mefyn draw ar y Vesta**

Yng nghanol y paith maith yn rhywle
Roedd gaucho yn mynd dan ei bwysa
Yn sydyn trwy'r tarth
Daeth at Ferched y Garth
'Rôl awr roedd y creadur yn llipa.

Gormod O Bwdin



Yng nghanol y paith maith yn rhywle
Daeth eco o leisia hen ffrindie
Yn sibrwd am hanes,
O draed yr hen Andes
Oasis a grëwyd gan ddagre.

Pat O'Gonia



**Siop anrhegion yr Indiaid**

ffrwythlon ar un ochr i'r ffordd ac anialwch y paith ar ochr arall y ffordd.

Tre Lewis Jones - Trelew oedd ein canolfan am y tridiau nesaf i grwydro'r ardal ac yn ein disgwyl ar ein diwrnod llawn cyntaf roedd asado bendigedig ar fferm Tair Poplar ar lan yr afon Camwy. Roedd hi'n brynhawn braf cynnes ac yn dilyn y wledd cafwyd cyfle i holi ein gwesteion am eu cysylltiadau â Chymru a darganfod fod gan rai berthnasau yn aelodau'r côr a'u cyndeidiau yn dod o ardal Tryweryn.

Hedfanodd y prynhawn mewn môr o hwyl a chanu a bu raid brysio i Wasanaeth y Cynhaeaf - ym mis Ebrill?

Rhagor am y Gaiman a'r Camwy y mis nesaf.



**Daw teuluoedd Shirley a Lovaine o Feirionydd**

# Cynhaeaf ym mis Ebrill?

Ar ôl y daith dros y paith a chroeso arbennig mewn asado ar lan afon Camwy roedd rhaid i Gôr Merched y Garth ddechrau canolbwyntio eto ar roi perfformiadau mewn cyfres o gyngherddau yn ardal y Gaiman a Phorth Madryn.

Roedd hi'n teimlo fel dydd Sul er mai dydd Sadwrn oedd hi ac ar ôl y bwyd ardderchog ar fferm Tair Poplar roedd rhaid mynd i wasanaeth cynhaeaf yng nghapel Bethel y Gaiman. Croesawyd y côr gan Eluned Gonzales a dywedodd fod casgliad y cwrdd yn mynd at y Feibl Gymdeithas - ddim un Cymru ond un Argentina. Roedd y gwasanaeth wedi ei baratoi a'i chyflwyno gan Elenid Jones ac aelodau eraill y côr a chafwyd gwledd o ganu ac o ddiolch am y cynhaeaf arbennig sydd wedi dod o'r gwaith caled yn dyfrhau dyffryn Camwy ac o'r cynhesrwydd a'r croeso sydd rhwng trigolion Patagonia a Chymru.

Yn ôl yr arfer roedd gwledd o fwyd yn ein disgwyl ar ôl y cwrdd a chyfle i sgwrsio â thrigolion yr ardal.

Mae'r Gaiman wedi bod yn enwog am ei gapeli ond mae hefyd yn enwog am ei dafarn. Mae'r Davarn Las yn ganolbwynt i fywyd nos y dref ac roedd rhaid i'r côr dalu ymweliad a mwynhau noson o ganu anffurfiol.

Taith i'r arfordir oedd yn ein disgwyl fore Sul i weld pengwin yn Punta Tombo. Ac roedd yr olygfa yn syfrdanol – dim clwstwr bach ond haid o dros can mil o bengwin yn paratoi i symud i ardal gynhesach ar ôl magu y genhedlaeth nesaf.



**Catrin Morris yn cyflwyno Côr Merched y Garth**

Yn ôl i Drelew a chynnal gwasanaeth y cynhaeaf arall yng Nghapel Tabernacl Trelew. Cael croeso arbennig yn y capel a the a chacennau i ddilyn. Roedd yn braf cael cwrdd â phobl oedd yn parhau i gadw'r traddodiadau Cymraeg.

Wedyn cyngerdd yn Amgueddfa arbennig Trelew. Cyflwynwyd y côr gan Catrin Morris sydd wedi symud i fyw o Lantrisant i Drelew . Roedd hi'n falch i



**Capel Bethel, Y Gaiman**


gael cyhoeddi mai Merched y Garth yw côr ei mam, ac er nad oedd ei mam yn gallu bod ar y daith roedd yn falch iawn i gael croesawu ffrindiau ei mam i Drelew. Noson wefreiddiol arall o ganu a'r tro yma cafwyd unawd gan Andres Roberts, ein tywysydd, yn canu Calon Lân yn Sbaeneg.

Y rheswm mae'r Amgueddfa yn Nhrelew yn arbennig yw am fod rhai o ddinosoriaid hynaf a mwyaf y byd yn cael eu cadw yno. Yn ardal y Gaiman o gwmpas Bryngwyn cloddiwyd olion y dinosoriaid ac mae arbenigwyr o bob rhan o'r byd yn ymweld â'r ardal oherwydd ei bwysigrwydd. Trelew yw'r dref fwyaf yn yr ardal. Sefydlwyd y dref o gwmpas yr orsaf rheilffordd ac fe'i henwyd ar ôl Lewis Jones un o arweinwyr y Gwladfawyr cyntaf.



**Yr Amgueddfa Dinosoriaid**

Doedd dim amser i oedi a bore Llun roedd rhaid codi i grwydro dyffryn Camwy. Cael ymweld ag Amgueddfa y Gaiman yn yr hen orsaf a gweld y meysydd ffrwythlon yn y dyffryn. Ymlaen wedyn i Dolavon a chael cinio mewn hen felin flawd sydd wedi cael ei hadfer. Ar y ffordd yn ôl aeth rhai i weld mynwent y Gaiman. Yno roedd cerrig beddi Cymraeg nesaf at rai Sbaeneg rhai yn coffau y gwladfawyr cyntaf ddaeth drosodd ar y Mimosa a nifer fawr ohonynt yn cofnodi hanes mewnfudwyr o ardal Aberdâr a'r cymoedd. Roedd yn deimlad rhyfedd gweld cerrig beddi Cymraeg mewn gwlad estron. Ac i goroni'r ymweliad gwnaethom ddarganfod bedd perthynas un o aelodau'r côr.




**Bedd un o'r Gwladfawyr cyntaf**

Roedd Coleg Cerdd y Gaiman wedi gwahodd y côr i roi cyngerdd ar y cyd ar y Nos Lun. Cafwyd eitemau gan gôr Merched y Gaiman o dan arweinyddiaeth Edith Macdonald a'r cyfansoddwr, Hector Macdonald, yn cyfeilio. Ac ymunodd corau cymysg y Gaiman â Merched y Garth a'i gwŷr i ganu Hafan Gobaith. Yn dilyn y gyngerdd fe'n gwahoddwyd i'r coleg am fwyd a chyd-ganu rhai o'r hoff ganeuon a chyfres o ganeuon i'r plant oedd wedi ymuno yn yr hwyl.



**Meinir Heulyn yn canu telyn newydd yr ysgol gerdd**



**Olwyn ddŵr yn dyfrhau y tir yn Nolavon**

Mynd nôl i'r cychwyn wnaethom ar ran olaf y daith drwy Batagonia – cewch glywed yr hanes y mis nesaf.

# Taith i'r Wladfa yn gorffen yn y dechrau

Mynd nôl i'r dechrau oedd cam olaf taith Merched y Garth yn y Wladfa. Gadael tref fwyaf yr ardal, Trelew, a mynd ar draws y paith. Roedd y tir yn ddifrwyth ac anial ac yn gymharol wastad. Wrth deithio gwelwyd ambell i gwt bach ar ochr y lôn oedd yn fan cysegredig i'r gauchos, lle iddynt ddiolch am eu cynhaliaeth a rhoi offrymau i'r duwiau. Yna daeth bae hyfryd Porth Madryn i'r golwg, yma byddai ein cartref olaf ar y daith yn y Wladfa a dyma lle glaniodd y mewnfudwyr cyntaf a ddaeth ar fwrdd y Mimosa yn 1865.

Ar ochr ddeheuol traeth eang Porth Madryn saif creigiau Punta Cuevas. Dewisodd y llongwyr lanio fan hyn mewn man cysgodol yn y bae yn hytrach na mentro rownd y trwyn i fewn i bae afon Camwy. Ond doedd dim i'w gael yma - dim ond diffaethwch llwyr. Roedd rhaid gwneud cysgodfan yn yr ogofau a'r creigiau ar lan y môr a danfon rhai o'r gwŷr ymlaen i ddyffryn Camwy. Adroddir yr hanes mewn Amgueddfa ac yma hefyd mae cofgolofn i'r mewnfudwyr cyntaf. Roedd yn amlwg fod yr amodau ar y Mimosa wedi bod yn wael iawn ac yn dilyn y gobaith o gyrraedd gwlad ffrwythlon roedd glanio ym Mhunta Cuevas yn siom aruthrol. Bu nifer o'r fintai yno am dros flwyddyn a bron a throi nôl am Gymru. Bu'r Indiaid brodorol yn gymorth iddynt ddygymod â'r elfennau wrth i'r cynhaeaf gyntaf fethu. Gellir darllen yr hanes mewn llu o lyfrau ond mae dod i weld y sefyllfa yn gwneud byd o wahaniaeth.

Er bod ein taith yn dod i ben roedd ein tywysydd, Andres Roberts, yn mynnu ein bod yn gweld mwy o fywyd gwyllt yr ardal. Felly i ffwrdd â ni ar draws Penrhyn Valdes a mynd ar gwch i weld morfilod a bywyd gwyllt y môr ar ddiwrnod heulog bendigedig. Ymlaen wedyn i weld rhagor o'r penrhyn ac uchafbwynt y daith i lawer - gweld armadillo!



**Guto yn cyflwyno dogfennau am Castell Madryn**



**Y côr neu'r fintai gyntaf yn glanio ym Mhunta Cuevas?**

**Côr Merched y Garth ym Mhatagonia**
**Gwanwyn 2005**

**I Catrin Morris, Trelew**
**(am gael menthyg ei thelyn)**

Uno eneidiau wnâi hiraeth pob nodyn,
A pha Iwerydd pan ganai d'offeryn?
Tynhau a wnâi'r tannau tynn, - asiad co',
A chydio ein dwylo wnâi swyn dy delyn.

**Punta Tombo, Arfordir Patagonia**
**(gwladfa adar!)**

Crio wnai côr yr ewyn o lwyfan
Dolefus y tywyn;
A thango-swagro yn syn
Ogam pengam y pengwyn.

**I Llinos Swain**
**(arweinydd ac unawdydd)**

Ar frig uchaf yr hafnos - canu'n bert
Ac yn bur wnâi'r eos;
Ond ail yw, cans canu'n dlos
Â'i holl enaid wna llinos.

Rhys Dafis



**Coro Puerto Madryn a'r pâr yn dawnsio**

Enwyd Porth Madryn gan un o noddwyr cyntaf mudiad y Wladfa, Love Jones Parry. Roedd e'n byw yng Nghastell Madryn, yn Llŷn. Oherwydd bod ei dad wedi prynu un o ffermydd ystâd Castell Madryn roedd gan Guto Roberts, gŵr i un o aelodau Côr Merched y Garth, ddogfennau am arwerthiant ystâd Castell Madryn yn 1900. Ac mewn seremoni gafodd gryn sylw ar y teledu lleol cyflwynwyd y dogfennau i ofal Amgueddfa Punta Cuevas.

Ar ein noson olaf trefnwyd noson lawen yng nghwmni Coro Puerto Madryn a Chymdeithas Gymraeg y cylch. Noson arall o wledda, canu a chyd-ganu Calon Lân yn Sbaeneg a Chymraeg a pherfformiad o ddawnsio traddodiadol gan ddeuawd o'r côr lleol oedd wedi gwefreiddio pawb.

# Gair gan Catrin

Annwyl Ferched

Dw i ddim yn credu mod i wedi sgwennu'n iawn atoch chi ers i chi ddychwelyd o Batagonia i Gymru, ond dw i newydd ddarllen tipyn am eich taith yn y Tafod ac felly dyma godi'n fuan a sgwennu gair bach.


Dw i eisiau diolch o galon i chi am bob peth. Buodd eich taith yn hwyl ac yn ddifyr ac yn llwyddiannus iawn i chi dw i'n siwr ond dw i ddim yn credu y gwyddoch gymaint o argraff a wnaethoch chi fan hyn. Does dim un côr o Gymru erioed wedi gneud cyngerdd yn Nhrefelin - dim un, ac roedd y gymdeithas yno'n hynod o ddiolchgar, ac yn sicr does neb wedi gneud noson lawen ym Madryn fel y gwnaethoch chi! Maen nhw'n dal i siarad am y peth. Efallai eich bod wedi gweld rhai aelodau côr Madryn yng Nghymru'n ddiweddar - mae cymaing â 15 wedi bod yn dysgu Cymraeg ar gyfer y daith hon a llawer o'r brwdfrydedd yn ganlyniad i'ch ymweliad chi!

Roedd eich cyfraniad yn amhrisiadwy, ac yna i goroni'r cyfan dyma CHI'N rhoi arian i NI!!!!!!!!!!!!! sôn am ein ffiol sy lawn! Hoffwn i chi wybod ein bod felly wedi casglu $80,000 o besos erbyn hyn ac rydym yn y broses o brynu adeilad a darn bach o dir er mwyn medru sefydlu ein hysgol feithrin a'n canolfan Gymraeg yma yn Nhrelew. Dyn ni'n gobeithio agor y drysau i ysgol feithrin swyddogol ddwyieithog Gymraeg felly ym mis Mawrth 2006 - a phwy a ŵyr be ddaw nesa - ysgol gynradd Gymraeg falle! amser a ddengys!

Diolch o galon i chi am bob peth - am ddod yma yn y lle cynta, am fwynhau ac am roi cymaint o fwynhad.

Diolch o galon
Catrin

Diolch i Eleri a Rae am drefnu taith arbennig, i Llinos a Meinir am arwain a chyfeilio Côr Merched y Garth, i Andres Roberts a'r gyrrwyr am ein tywys ar draws y paith ac yn arbennig i Catrin Morris am sicrhau ein bod wedi cael profiad arbennig yn y Wladfa.



Eiddil Fimosoa drwy ddylif misoedd,
Hwyliai i'w hantur ar wamal wyntoedd